Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

PLANNU COED YM MHARC CAERFYRDDIN

Mae Sefydliad y Merched Sir Gâr wedi rhoi dwy goeden i Gyngor Tref Caerfyrddin fel rhan o brosiect i hybu plannu coed mewn ardaloedd trefol.

Gofynnodd Julie Joliffe, Cydlynudd y prosiect ar ran Sefydliad y Merched i Gyngor Tref Caerfyrddin am ganiatâd i blannu'r coed, a phlannwyd coeden dderw ym Mharc y Dref a choeden castanwydd ym mynwent y dref yn Heol Elim.

Dywedodd Maer y Dref y Cynghorydd Emlyn Schiavone: 'Mae'r Cyngor Tref yn hapus iawn i gael y cyfle yma i gefnogi'r prosiect a r'ydym yn ddiolchgar iawn i Sefydliad y Merched yn Sir Gâr am brynnu'r ddwy goeden'. Mae coed yn gwneud lles mawr i'r amgylchedd a chymunedau lleol ac rydym fel Cyngor Tref yn falch iawn i wneud hyn ac yn awyddus i ddatblygu'r rhaglen ymhellach'.

Dywedodd Julie: Mae Sefydliad y Merched yn ddiolchgar iawn i'r Cyngor Tref am eu cefnogaeth a gobeithwin weithio'n agos iawn gyda'r Cyngor Tref i blannu mwy o goed yn y dyfodol'.

Yn ystod 2018 cyflwynodd Cyngor Tref Caerfyrddin gynllun gweithredu i hyrwyddo bioamrywiaeth yn holl berci'r Cyngor Tref a'r fynwent er mwyn hyrwyddo'r amgylchedd. Yn ddiweddar, plannwyd 150 o goed ifanc yn y fynwent a bwriedur datblygu'r gwaith hyn eleni.

Julie Joliffe - Cydlunydd y prosiect plannu coed mewn ardaloedd trefol ac Ann Halborg – Cadeirydd Ffederaswin Sefydliad y Merched yn Sir Gâr - gyda Maer y Dref Cyng Emlyn Schiavone ac Adrian Lloyd, Sywddog Gweithredol y Cyngor Tref.